# Brymbo Heritage Trust

*Stori Brymbo – Taith o 300 Miliwn o Flynyddoedd – Natur, Diwydiant a Phobl.*

# Disgrifiad o Swydd

## Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth

Swydd lawn amser ym Mrymbo, Gogledd Cymru

Cyflog o hyd at £50k yn dibynnu ar brofiad

Mae Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo yn chwilio am arweinydd sy'n ysbrydoli i wireddu ac yna weithredu cam £8m cyntaf *Stori Brymbo*, sef atyniad i ymwelwyr sydd â fforest ffosiledig rhyngwladol arwyddocaol sy'n dyddio yn ôl fwy na 300 miliwn o flynyddoedd, adeiladau diwydiannol o'r 18fed a'r 19eg ganrif a thirwedd o arwyddocâd cenedlaethol. Bydd yn adrodd straeon y bobl a wnaeth dur Brymbo yn fyd-enwog yn yr 20fed ganrif; bydd yn datblygu canolfan ddysgu sy'n darparu addysg mewn gwyddoniaeth a hanes naturiol; bydd yn gweithredu fel cyflwynydd a chyd-destun 'byw' ar gyfer hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu, peirianneg a threftadaeth; a bydd yn creu mannau gwyrdd a diogel i'r gymuned ymgasglu ac ar gyfer cynnal digwyddiadau perfformio a darparu lle i osod, tyfu a dathlu mentrau.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf rydym wedi llwyddo i sicrhau arian sylweddol i ganiatáu i ni wireddu ein breuddwyd o sefydlu *Stori Brymbo*. Dau brif ariannwr ein cynllun c. £8m cyntaf yw Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Rydym yn bwriadu dechrau gwaith adeiladu yn fuan yn 2024 ac agor i'r cyhoedd yn fuan yn 2026. Bydd y ddwy flynedd nesaf yn allweddol o ran sicrhau bod y prosiect cyfalaf yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus a pharatoi ar gyfer y cam gweithredu. Felly, rydym yn chwilio am unigolyn rhagorol i arwain ein sefydliad hyd at gam nesaf ein datblygiad i agor i'r cyhoedd ac yna arwain y tîm i weithredu'r cam cychwynnol hwn o *Stori Brymbo* yn y blynyddoedd dilynol. Mae gennym gynlluniau pellach sy'n gyffrous a bydd y Cyfarwyddwr yn gweithio gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r staff i esblygu, cymeradwyo a mireinio ein gweledigaeth er mwyn gwireddu potensial llawn y safle a'i hanes rhyfeddol dros y degawdau dilynol.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n 'cyflawni', nad oes ots ganddynt dorchi eu llewys ac sydd yr un mor frwdfrydig ag yr ydym ninnau am y cyfraniad y mae ein grŵp amrywiol o wirfoddolwyr yn ei wneud er mwyn gwireddu'r prosiect.

2024 and 2025 yw blynyddoedd terfynol ein prosiect Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – '*O'r Gwreiddiau i'r Brigau'* – a bydd y Cyfarwyddwr yn gyfrifol am ddarparu'r cam 'llawr gwlad' o'r rhaglen bartneriaeth a thirwedd gymunedol gweddau amrywiol hon a'i chwblhau'n llwyddiannus.

Gan weithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, rydym yn chwilio am rywun sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau a nodweddion sy'n dangos yr angerdd a'r ymrwymiad i yrru'r prosiect hwn yn ei flaen a'i fewnosod yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae sicrhau llwyddiant a gwytnwch gweithredol fel atyniad newydd i ymwelwyr yr un mor bwysig. Gellir rhannu'r sgiliau a'r nodweddion hyn i nifer o gategorïau ac rydym yn chwilio am ymgeiswyr i ddangos y rhain yn eu llythyr cais.

Er ein bod yn chwilio am ymgeiswyr sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau, byddwch yn gweithio gydag Ymddiriedolwyr, staff ac ymgynghorwyr, y mae gan bob un eu harbenigedd eu hunain a byddant yn eich cefnogi chi'n llawn i gyflawni eich amcanion.

**Cyfrifoldeb strategol**

- Gweithio gydag ymddiriedolwyr, cynghorwyr a rhanddeiliaid i ddarparu ac adeiladu ar gyfeiriad strategol y sefydliad.
- Datblygu'r cynllun strategol ar gyfer cam gweithredol y prosiect *Stori Brymbo* a darparu hyn ar lawr gwlad.
- Sicrhau bod y prosiectau *O'r Gwreiddiau i'r Brigau* a'u gwaddol wedi eu hintegreiddio yn y cyfeiriad, cynlluniau a gweithredoedd uchod.
- Paratoi strategaeth dymor hirach i gefnogi cadarnhau camau'r prosiect yn y dyfodol a chyfleoedd pellach sydd o'n blaenau.
- Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau wedi eu diweddaru, yn adlewyrchu'r symudiad tuag at ddarpariaeth, yn cyfateb â chyfeiriad strategol yr Ymddiriedolaeth, ac yn ateb gofynion arianwyr, partneriaid cymunedol a rhanddeiliaid ehangach.

**Rheoli staff**

- Profiad o reoli tîm staff bychan ac ymroddedig yn uniongyrchol.
- Profiad o gefnogi staff drwy drosglwyddiadau mewn rolau a ffocws.
- Cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus staff.
- Gwneud gwerthusiadau staff blynyddol a threfnu'r broses o osod targedau.

**Sgiliau adeiladu tîm**

- Cynnal, cryfhau ymhellach a thyfu tîm cydlynol o staff i ddarparu cefnogaeth weithredol i'r prosiect.
- Cynnal cydbwysedd o ddirprwyaeth, ymddiriedolaeth ac awdurdod o fewn y tîm staff.
- Helpu i ddatblygu timau effeithiol o wirfoddolwyr i gefnogi anghenion gweithredol y sefydliad.
- Sicrhau bod y polisïau ar gyfer ymddygiad a safonau ymddwyn yn cael eu gweithredu'n gyson ar gyfer staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr fel ei gilydd.

**Sgiliau rheoli ariannol**

- Cynhyrchu datganiadau llif arian a chyllidebau cywir a manwl ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a'r prosiect a rheoli a monitro perfformiad llif ariannol.
- Gweithio gyda'r is-bwyllgor cyllid i gytuno ar fanylion cyllidebau, cynlluniau gwario, cyflogau a gwybodaeth ariannol berthnasol arall.
- Cynhyrchu datganiad ariannol misol ar gyfer y Bwrdd Ymddiriedolwyr.
- Adeiladu ar, mireinio a gweithredu cynllun busnes cynhwysfawr i sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth fodel gweithredu cytbwys a chynaliadwy.

**Rheoli grantiau a chodi arian**

- Arwain y gwaith o wneud ceisiadau am grantiau a chymorth arall sy'n ateb meini prawf y prosiect ac a fydd yn gallu cynyddu'r arian a sicrheir.
- Cyflwyno ceisiadau am grantiau i sicrhau arian fel y bo'r gofyn yn ôl anghenion y prosiect.
- Datblygu perthnasoedd ag arianwyr a chynnal cyfathrebiad ar bob lefel.
- Rheoli'r grantiau i sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno fel y bo'r gofyn. Gweithio gydag arianwyr i sicrhau bod yr holl geisiadau'n cael eu cyflwyno'n brydlon ac yn y fformat priodol.

**Profiad yr Ymwelydd a Gosod Allan**

- Gweithio gyda'r tîm dylunio, y tîm dehongli a chynghorwyr arbenigol eraill i sicrhau'r profiad gorau i'r ymwelwyr a phrofiad sy'n cael ei ddarparu mewn ffordd effeithlon.
- O dan gyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect, a gyda'u cefnogaeth, rheoli'r prosesau ar gyfer dewis, prynu a chomisiynu unrhyw waith gosod allan gweddilliol sydd heb dderbyn sylw gan y tîm dylunio cyfalaf a'r contractwyr penodedig.
- Bod â dealltwriaeth dda o wahanol ffyrdd o ddehongli treftadaeth a beth sy'n gweithio i wahanol gynulleidfaoedd.
- O dan gyfarwyddyd y Bwrdd Ymddiriedolwyr, a gyda'u cefnogaeth, rheoli'r broses ar gyfer dewis, prynu a chomisiynu unrhyw systemau TGCh gweithredol/swyddfa gefn yn cynnwys rhwydweithiau a chaledwedd, a meddalwedd ar gyfer cyllid. Adnoddau dynol, pwynt gwerthu mewn manwerthu, ac ati.

**Marchnata a phrofiad o atyniadau ymwelwyr**

- Datblygu strategaethau i adeiladu nifer yr ymwelwyr ac annog ymwelwyr i ymweld dro ar ôl tro.
- Bod â phrofiad o farchnata atyniad treftadaeth gan ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau i ddenu ymwelwyr yn lleol, ledled Prydain ac yn rhyngwladol.
- Gweithio'n agos â'r cydgysylltydd ymgysylltu i sicrhau bod y Strategaeth Farchnata a'r Cynllun Cyfathrebu'n cael eu darparu, yn cynnwys cynlluniau marchnata ar y cam cyn lansio a'r cam lansio.
- Profiad o weithio ar lefel rheoli ar safle atyniad ymwelwyr.
- Datblygu a darparu cynlluniau i sicrhau'r ffrydiau incwm gorau.

**Rheolaeth weithredol**

- Cymryd y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am gadw *Stori Brymbo* yn rhedeg yn esmwyth.
- Bod ar rota'r rheolwyr ar ddyletswydd.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod pob ymwelydd yn derbyn croeso a phrofiad o safon uchel.
- Sicrhau bod y prosiectau O'r Gwreiddiau i'r Brigau yn cael eu cyflawni.

**Gweithgareddau ac ymgysylltiad â'r gymuned**

- Sicrhau bod cynhyrchiad a chyhoeddiad adroddiadau blynyddol yn cynnwys yr effaith gymdeithasol a'r effaith leol.
  Bod yn gyfrifol am gydlynu a goruchwylio rhaglen eang o ddysgu a gweithgareddau cymunedol yn rhan o'r Cynllun Gweithredu sydd wedi ei gefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

**Rheolaeth a phrofiad o gontract adeiladu**

- Gweithio gyda phrif ymddiriedolwr technegol yr Ymddiriedolaeth, y rheolwr prosiect technegol, y tîm dylunio a'r cynghorwr prosiect i sicrhau bod y gwaith cyfalaf yn cael ei gyflenwi'n brydlon ac o fewn y gyllideb.
- Gweithredu fel arweinydd cleientiaid ar gyfer gosod allan yn ddeongliadol ac ar gyfer gwaith adeiladu, gosod allan a thirwedd a wneir gan wirfoddolwyr a dysgwyr.

**Sgiliau cyfathrebu rhagorol**

- Datblygu cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol i sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn llawn a'u bod wedi derbyn y wybodaeth am ddatblygiadau.
- Gweithio'n agos â rhanddeiliaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad y prosiect ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ar bob lefel.
- Gweithio gyda'r cydgysylltydd gwirfoddoli i sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys a'u hysbysu am gynnydd y prosiect gan ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau.

**Manyleb y person**

*Gofynion Hanfodol*

- Profiad y gellir dangos tystiolaeth ohono mewn rôl weddol debyg.
- Brwdfrydedd mawr am dreftadaeth wedi'i seilio yn y gymuned ac adfywiad.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol i feithrin perthnasoedd yn fewnol ac allanol
- Rheolwr effeithiol profedig sy'n gallu datblygu tîm a chefnogi a chymell staff a gwirfoddolwyr.
- Y gallu i gynhyrchu ceisiadau am gyllid ac adroddiadau cryno a manwl gywir.
- Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol, y gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith i gydfynd ag anghenion sefydliadol.
- Y gallu i weithio o dan bwysau ac erbyn dyddiadau cau.
- Y gallu i gymryd cyfrifoldeb a datrys problemau.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

- Sgiliau TG rhagorol yn cynnwys bod yn hyderus wrth ddefnyddio Excel ar gyfer gwaith cynllunio busnes, monitro a chreu cyllidebau prosiectau.
- Profiad o weithio ar brosiectau sydd â nifer o arianwyr.

*Gofynion Manteisiol*

- Sgiliau marchnata, yn cynnwys sgiliau cyfryngau cymdeithasol mewn amgylchedd gwaith.
- Gwybodaeth a phrofiad o adnoddau dynol, penodi, contractau a gweithdrefnau.
- Trwydded yrru ddilys.
- Byddai'n fanteisiol i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn siaradwr Cymraeg.
- Profiad o brosiect wedi'i ariannu gan y Loteri.

**Nodweddion Personol**

- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf iawn.
- Gallu profedig i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ac ennyn eu brwdfrydedd.
- Ymrwymiad i ethos 'cynwysedig' yr Ymddiriedolaeth.
- Dycnwch, pragmatiaeth a gwydnwch.

Bydd y swydd hon yn gofyn am rywfaint o waith gyda'r nos ac ar y penwythnosau i gyflawni anghenion y rôl.

Bydd y Cyfarwyddwr yn dod yn aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr hefyd felly bydd cyfle iddynt weithio gyda thîm cryf o ymddiriedolwyr i helpu i siapio cyfeiriad y sefydliad yn y dyfodol.

Bydd daliwr y swydd yn cymryd y prif gyfrifoldeb am drefnu dyletswydd galw larwm y tu allan i oriau unwaith y mae'r safle'n weithredol.

Mae hwn yn gontract parhaol sy'n amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus.

Yn amodol ar gadarnhau bod caniatâd i gychwyn, bydd y swydd yn cael ei chefnogi dros gyfnod o bum mlynedd i ddechrau gydag arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a hyd at ganol 2025 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Hawl gwyliau blynyddol: 28 diwrnod y flwyddyn yn gyfatebol ag amser llawn (yn cynnwys gwyliau banc a gwyliau statudol).

Mae Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo yn ymroddedig i gydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ei gweithgareddau i gyd. Fel cyflogwr, mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND